| CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP<br>Dydd Mawrth 8fed o Orffennaf 2025<br>14:00 – 15:00 | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), James Parkin (JP), Libby Taylor (LT), Jessica Morgan (JM), Michelle Webber (MW), Andrew Muskett (AM), Kate Gravell (KG), Emma Gladstone (EG), Kate Attrill (KA), Tom Iggleden (TI) | |
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Tegryn Jones, Clare Bates, Marie Parkin |
| 2 | **Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Ebrill 2025**<br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ebrill 2025.<br><br>**Materion yn codi o'r Cofnodion, a'r Camau Gweithredu**<br>Roedd JA wedi rhannu gwybodaeth am gwrs sydd ar gael ar ELMS ar gyfer datrys gwrthdaro, a’r newidiadau a wnaed i’r llawlyfr gyrwyr, megis yr angen am bolisi ar ymddygiad gyrwyr (i'w rannu â’r grŵp Iechyd a Diogelwch cyn y Tîm Rheoli). Roedd JA wedi tynnu sylw at y Polisi Iechyd a Diogelwch gan gyfeirio at y wybodaeth anghywir oedd wedi’i chywiro.<br><br>Roedd JA wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisi gweithio ar eich pen eich hun, oedd wedi’i gyfeirio at y grŵp Cynrychiolwyr Staff am sylwadau. |
| 3 | **Asesiadau Risg Tân a’r Cynllun Gweithredu (JM)**<br>Roedd AM wedi trafod yr asesiadau risg tân ar gyfer pob safle, ac yn hysbysu'r grŵp am y bwriad i gyflogi ymgynghorydd allanol i ymgymryd â'r dasg o ddiweddaru'r Asesiadau Risg Tân a'r Logiau Gweithredu, gan ddechrau yn Llanion, ac wedyn symud ymlaen i gynnwys y safleoedd eraill yn yr Hydref. |
| 4 | **Asesiadau Risg Dynamig (MW)**<br>Roedd MW wedi rhannu’r pryderon ynghylch rheoli’r Asesiadau Risg a chael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Awgrym MW oedd datblygu system lle mae unrhyw fylchau sydd heb eu cynnwys mewn asesiad risg yn cael eu cofnodi, yn benodol, asesiad risg sy'n ymwneud â safleoedd. Roedd TI wedi rhoi mwy o fanylion am y system, gan egluro manteision atodi'r asesiad risg cyfredol a gwneud diwygiadau.<br><br>Cyflwynodd JM adroddiad ar y modd y mae cofnodion asesiad risg yn cael eu monitro ar Sharepoint ar hyn o bryd. Roedd MW ac LT o’r farn nad oedd hyn yn ffordd effeithlon o ddangos pwy oedd wedi darllen y cofnodion, a bod angen gwneud gwelliannau er mwyn cadw golwg ar newidiadau a pha aelodau’r tîm oedd wedi'u darllen.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:** JA i drafod gyda Mair ynglŷn â dileu enw Arfon oddi ar yr asesiadau risg.<br>**CAMAU GWEITHREDU:** JA i ymchwilio i gofnodi asesiadau risg ar Cezanne. |
| 5 | **Syndrom Dirgryniad Braich Llaw - HAVS (MW)**<br>Roedd MW wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyfeisiau newydd a wisgir ar yr arddwrn, oedd wedi’u defnyddio ers mis Ionawr 2025, sy'n monitro’r dirgryniadau o ddefnyddio offer, ac effeithiau'r dirgryniadau hynny ar dîm y Wardeniaid. Awgrym MW oedd rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffurflenni papur a'u disodli â'r dyfeisiau dan sylw, ar gyfer y tîm |

| | |
|---|---|
| | Wardeniaid yn unig. Roedd y ffurflenni papur yn dal i gael eu defnyddio gan weithwyr eraill sy'n anaml yn defnyddio offer dirgrynol. |
| 6 | **Damweiniau a Digwyddiadau - Ebrill i Mehefin 2025**<br>Cyfeiriodd JA at y diffyg adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau, gan mai dim ond 1 ddaeth i sylw fis Mai 2025. Soniodd JA am y cynnydd sydyn mewn digwyddiadau HAVS, allai fod o ganlyniad i wall defnyddiwr neu beiriant yn ystod y camau cynnar. Eglurodd TI y gallai hyn fod oherwydd bod y dyfeisiau yn codi unrhyw ddirgryniad, yn hytrach na dim ond dirgryniadau offer yn benodol.<br><br>Holodd AM a oedd y difrod i ddrws yng Nhanolfan Milton wedi'i adrodd, gan nad oedd yn ymwybodol bod y digwyddiad wedi derbyn sylw.<br><br>Gofynnodd JM a oedd ffôn oedd ar goll wedi'i adrodd, gan nad oedd y ffôn wedi'i ddarganfod eto, nac wedi'i ddwyn i sylw TG. |
| 7 | **Iechyd, Salwch a Llesiant Staff**<br>Dywedodd JA wrth y grŵp nad oedd unrhyw achos o salwch hirdymor ar hyn o bryd a bod yr absenoldebau salwch wedi gwella o'i gymharu â'r llynedd, er y gallai hynny fod o ganlyniad i dan-adrodd pan fydd gweithwyr yn gweithio pan fyddant yn anhwylus. Roedd unrhyw absenoldebau oherwydd salwch meddwl yn cael eu rheoli. |
| 8 | **Hyfforddiant a Datblygu**<br>Diolchodd JA i'r Grŵp am helpu i gael cydweithrediad y staff, oedd wedi golygu lefelau uchel o gwblhau hyfforddiant gorfodol.<br>JA - Roedd hyfforddiant ar lwytho yn ddiogel wedi'i gwblhau gan y Wardeiniaid, y Parcmyn a'r gweithwyr eraill sy'n llwytho trelars. |
| 9 | **Adborth Grŵp Cynrychiolwyr Staff**<br>Nid oedd unrhyw adborth gan y Cynrychiolwyr Staff. |
| 10 | **Unrhyw fater arall**<br>Holodd MW am y posibilrwydd o ddefnyddio'r gwasanaeth llinell gymorth ar gyfer ei thîm.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:** JA i ddarganfod mwy am y system gweithio ar eich pen eich hun. |
| 11 | **Cloi'r Cyfarfod**<br><br>**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Y cyfarfod nesaf wedi'i aildrefnu i'w gynnal ar yr 21ain o fis Hydref. |

| CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP<br>Dydd Mawrth 21ain o Hydref 2025<br>14:00 – 15:00 | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** Tegryn Jones (TG) James Parkin (JP) Libby Taylor (LT), Michelle Webber (MW), Tom Iggleden (TI), Kate Attrill (KA), Jessica Morgan (JM), Kate Gravell (KG), Catherine Evans (CE) | |
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), Marie Parkin (MP), Andrew Muskett (AM), Emma Gladstone (EG) |
| 2 | **Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Gorffennaf 2025**<br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Gorffennaf 2025.<br><br>**Materion yn codi o'r Cofnodion, a'r Camau Gweithredu**<br><br>**Eitem 3.** Dylai **Asesiadau Risg Tân a'r Cynllun Gweithredu** ddarllen **(AM)** nid **(JM)**.<br>Y cais am amserlen yr Asesiadau Risg Tân i'w ddosbarthu.<br><br>**Eitem 4. Asesiadau Risg Dynamig**<br>Cyflwynodd CE farn yr adran Adnoddau Dynol nad Cezanne oedd y lle delfrydol i storio asesiadau risg.<br>Roedd storfa Sharepoint gyfredol ar gael.<br>Cyfeiriodd LT unwaith eto at ddiffyg y system bresennol o ran adolygu / diweddaru a sicrhau bod pob aelod o staff yn gweld y wybodaeth ac yn llofnodi. Cytunwyd i ailedrych ar y system.<br>Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar arfer yr adran Adfer Byd Natur fel ffordd ymlaen, sgyrsiau blwch offer, a rhannu asesiadau risg yn gylch chwarterol o adolygu gydag arweinwyr tîm a staff yn llofnodi yr adeg hon.<br>Bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar weithgareddau penodol, a bydd yr asesiadau hyn o reidrwydd yn cael eu hadolygu cyn y gweithgaredd.<br>Cytunwyd ar yr angen i sicrhau bod asesiadau risg hanesyddol yn cael eu harchifo'n gywir.<br>Ystyriwyd a chytunwyd bod yr asesiadau risg gweithredol cyfredol o 165 yn rhesymol.<br><br>**Eitem 10. Unrhyw fater arall**<br>Roedd aelod o dîm MW yn treialu'r gwasanaeth galwadau Delta Wellbeing ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun.<br><br>Meysydd eraill o'r gwaith – Cynllunio Datblygu - defnyddio'r System Gyfeillio.<br><br>CE i edrych ar statws y polisi gweithio ar eich pen eich hun. |
| 3 | **Damweiniau a Digwyddiadau - Gorffennaf - Medi 2025**<br>Nododd y grŵp y cynnydd mewn digwyddiadau; roedd hyn i'w briodoli i'r ffocws uwch ar gofnodi, ac mai'r cyfnod dan sylw yw'r amser prysuraf o'r flwyddyn.<br>Er bod rhai o'r digwyddiadau y tu allan i'r cwmpas, roedd y Grŵp yn fodlon mai'r neges 'cofnodi os oes amheuaeth' oedd y ffordd gywir ymlaen.<br>Dywedodd TI wrth y Grŵp ei fod yn derbyn log digwyddiadau oddi wrth asiantaethau allanol – h.y. Gwylwyr y Glannau – a gofynnodd a ddylem fod yn edrych ar y rhain hefyd pe bai'r digwyddiad yn effeithio ar APCAP. Roedd y Grŵp â diddordeb mewn cael eu gweld.<br>Holodd LT am y digwyddiad Diogelu ar 22/8/25, ac fel y Swyddog Arweiniol Diogelu, bod angen iddi gael gweld manylion y digwyddiad. Y Prif Weithredwr i gymryd camau gweithredu.<br><br>Cafodd yr Adroddiad ar y Digwyddiad RIDDOR ei gydnabod, a gofynnodd TJ i JP adolygu'r adroddiad i ystyried y goblygiadau i safleoedd eraill i ymwelwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | **Iechyd, Salwch a Llesiant Staff**<br><br>Roedd y lefelau absenoldeb salwch yn isel iawn, dim ond 3 absenoldeb hirdymor yn y cyfnod adrodd a 2 bellach wedi dychwelyd i’r gwaith.<br><br>Ailadroddodd TJ y dylem bob amser fod yn bryderus am faterion straen a lles.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid cynnal cwrs ymwybyddiaeth i bob rheolwr llinell ynghylch rheoli iechyd meddwl yn y gweithle – roeddem wedi cynnal cwrs o’r blaen – ond bod gennym nifer o Arweinwyr Tîm newydd erbyn hyn allai elwa o’r cwrs. Y Prif Weithredwr i ymchwilio.<br><br>Mewn trafodaeth yn dilyn 'cerdded y llwybr er lles' ddydd Gwener, roedd y staff wedi codi'r posibilrwydd o drefnu taith gerdded yn amlach a defnyddio'r amser i drafod gweithgaredd gwaith mewn amgylchedd y tu allan i'r swyddfa. O ystyried y lefelau gweithio Hybrid a gweithio o bell, gwelir hyn fel ffordd o gysylltu â’r staff o dimau eraill. |
| 5 | **Hyfforddiant a Datblygu**<br><br>Nodwyd bod nifer uchel o staff wedi cwblhau’r hyfforddiant ELMS.<br><br>Roedd y tîm AD wrthi'n gwneud newidiadau fel y gall gweithwyr ail-wneud cyrsiau, e.e. Diogelu sy'n rhaid ei ail-wneud bob 3 blynedd.<br><br>Roedd 20 o’r staff wedi gwneud yr hyfforddiant ar Legionella, ac roedd yr asesiad risg wedi'i ddiweddaru. |
| 6 | **Adborth Grŵp Cynrychiolwyr Staff**<br><br>Nid oedd unrhyw adborth gan y Cynrychiolwyr Staff. |
| 7 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Roedd adolygu’r polisi Syndrom Dirgryniad Braich Llaw (HAVs) wedi'i gwblhau ac roedd y Grŵp yn fodlon ar y newidiadau trac.<br>Holodd TJ am y pwyntiau HAVs yn y Polisi – atebodd TI bod 100 pwynt angen camau unioni i sicrhau bod yr wythnos yn dod o dan 500, bod 150 pwynt mewn un diwrnod angen gwneud adroddiad digwyddiad, hwn yw ein terfyn – 400 pwynt yw cyfanswm eithaf yr HSE; felly rydym mewn lefelau diogel iawn.<br>Dywedodd TI wrth y Grŵp bod Reactec wedi rhoi gwybod bod yr Awdurdod ymhlith eu 5 cwsmer gorau o ran cydymffurfiaeth.<br><br>Holiodd MW ynghylch Aelodaeth o’r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr ac am sicrhau ein bod yn parhau i fod yn aelod. Roedd CE i ymchwilio i weld a yw Adnoddau Dynol wedi derbyn anfoneb adnewyddu aelodaeth.<br><br>Cyfeiriwyd at y grŵp yn Strategaeth y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr; JP i ddod yn ôl i'r cyfarfod nesaf gydag unrhyw ddiweddariad a awgrymir.<br><br>Cafwyd diweddariad gan JM bod y Polisi Gyrru ar gyfer Gwaith bellach wedi'i gyhoeddi ac y bydd ar Cezanne fel rhan o’r gyfres o Bolisïau Sefydlu.<br><br>Dywedwyd bod y Tendr ar gyfer Drysau Tân yn mynd allan cyn hir a bod AM ar y pryd yn gweithio drwy'r asesiadau tân ar y gwahanol safleoedd, ac fel uchod, roedd yr amserlen cwblhau i'w dosbarthu. |

| | | |
|---|---|---|
| 11 | **Cloi'r Cyfarfod**<br><br>Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar y 13eg o Ionawr 2026. |

| CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP<br>Dydd Mawrth 13eg o Ionawr 2026<br>14:00 | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** Tegryn Jones (TJ), Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), Libby Taylor (LT), Michelle Webber (MW), Tom Iggleden (TI), Jessica Morgan (JM), Andrew Muskett (AM), Emma Gladstone (EG) | |
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** James Parkin (JP), Kate Attrill (KA), Kate Gravell (KG ), Marie Parkin (AS) |
| 2 | **Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025.**<br><br>**Asesiadau Risg Tân.** Cadarnhaodd AM bod yr asesiadau hyn i'w cynnal fis Chwefror. Yr asesiadau hyn fydd yr Asesiadau Risg Tân ar bob safle heblaw am Llanion, a byddant yn cael eu cynnal gan yr Ymgynghorydd a asesodd Llanion.<br><br>**Cymeradwyo Asesiadau Risg.** Trafodwyd yn flaenorol nad Cezanne yw'r lle i wneud hyn. Roedd LT wedi gofyn i Pete Norman am sefydlu system ar SharePoint. Unwaith y bydd gan LT fynediad, bydd hi'n rhannu gyda phawb.<br><br>**Drysau Tân.** Cadarnhaodd AM bod dogfennau'r tendr wedi'u cwblhau.<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025. |
| 3 | **Damweiniau a Digwyddiadau Hydref – Rhagfyr 2025**<br><br>Dywedodd TJ bod llai o ddigwyddiadau na'r chwarter diwethaf, ac o bosibl bod hyn i'w briodoli i'r cynnydd sydyn y tro diwethaf gan mai ar adrodd oedd y ffocws. Atgoffwyd nad oedd y nifer o bwys tragwyddol cyn belled â bod y digwyddiadau a'r digwyddiadau fu bron â digwydd yn cael eu hadrodd. Ychwanegwyd bod y digwyddiadau bron â digwydd yn arbennig o bwysig fel cyfle i ddysgu.<br><br>Roedd TJ wedi sylwi bod ambell ddigwyddiad gan bobl ar lwybr yr arfordir, a chwestiynodd a ddylem fod yn adrodd am y digwyddiadau hyn?<br>Ymatebodd MW bod y grŵp wedi gofyn am weld y digwyddiadau pe baent yn cael eu hadrodd.<br><br>Gofynnodd TJ am eglurhad ynghylch y digwyddiad ar y bompren yn Oriel y Parc. Ymatebodd AM bod ymwelwyr oedd yn croesi'r bont wedi honni bod y bont yn anniogel. Gwelwyd fodd bynnag bod y bont yn ddiogel, a bod yr archwiliad wedi nodi bod angen disodli un o'r cynheiliaid – mae'r gwaith hwn wedi'i wneud.<br>Hefyd gofynnodd TJ am eglurhad ynghylch colli'r oriawr. Ymatebodd TI mai oriawr REACTEC oedd hon, oedd wedi dod i ffwrdd wrth dynnu dillad tywydd gwlyb. Roedd y math hwn o oriawr yn costi rhyw £30 - £40.<br><br>Dywedodd AM, er ein bod wedi cael rhai digwyddiadau larwm yn Llanion, bod hyn wedi cael ei briodoli i'r rhyngwyneb rhwng y systemau larwm ar gyfer yr hen adeilad a'r adeilad newydd, ac nad diffyg ar y larwm oedd hyn. |
| 4. | **Iechyd, Salwch a Llesiant Staff**<br><br>TJ: Roedd y lefelau yn dal yn eithaf isel. Dywedodd bod angen sicrhau bod y drefn dychwelyd i'r gwaith yn cael ei chwblhau ar gyfer pob cyfnod o absenoldeb salwch. |
| 5 | **Hyfforddiant a Datblygu**<br><br>Roedd cyfradd uchel o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ELMS. |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn trafodaeth ar rinweddau cwrs codi a chario, cytunwyd y dylai pob gweithiwr barhau i gwblhau cwrs trin â llaw ELMS, ond os clustnodir bod eu swydd yn gofyn am 'lefel uwch' o drin â llaw, yna dylai TI gynnal sgyrsiau blwch offer a thrafod arfer gorau.<br><br>**Camau gweithredu:** TI a JA i glustnodi gweithwyr sydd â lefel uwch o drin â llaw, gan gynnwys y canolfannau, y parcmyn, wardeniaid, gofalwyr, gyrrwr y cylchgrawn O Lan i Lan, a'u cynnwys yn y matrics hyfforddi. Soniodd TI am gwrs Codi yn Ddiogel a Datrys Problemau y gellid ei gyflwyno gan James Archer. |
| 6 | **Adolygu'r Asesiadau Risg oedd heb eu cwblhau**<br><br>Cyflwynwyd rhestr o'r asesiadau risg yr oedd angen eu hadolygu.<br><br>Cadarnhaodd LT bod nifer o'i Hasesiadau Risg hi wedi'u cwblhau ac ond angen eu lan-lwytho i'r system. |
| 7 | **Adolygiad Blynyddol o'r Polisi Iechyd a Diogelwch**<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Pawb i adolygu'r Polisi a chyflwyno sylwadau i JA erbyn diwedd mis Ionawr. |
| 8 | **Adborth Grŵp Cynrychiolwyr Staff**<br><br>Nid oedd cynrychiolydd staff yn bresennol yn y cyfarfod hwn.<br>Hefyd roedd angen cynrychiolydd o'r uned Twristiaeth Adfywiol.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** JA i glustnodi aelod yn Gynrychiolydd Staff ar y Grŵp hwn. |
| | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dywedodd MW bod yr adolygiad 6 mis o ddefnyddio'r oriawr Reactec i'w gynnal fis Chwefror. Roedd Jake hefyd yn edrych ar fater dirgryniad corff cyfan i'r timau, a bod gennym y rheolaethau cywir yn eu lle. Ychwanegodd TI y byddwn yn defnyddio'r system goleuadau traffig, a'r gobaith oedd y byddai'r system mewn lle cyn diwedd mis Mawrth.<br><br>Gofynnwyd i SM dynnu sylw at y trefniadau staffio yn ystod y tywydd eithafol diweddar (eira a stormydd). Cytunwyd yn y drafodaeth y byddem bob amser am i'r staff fod yn ddiogel, a bod y dull o ddefnyddio synnwyr cyffredin yn gweithio'n dda.<br><br>**CAM GWEITHREDU**: I'w ychwanegu at agenda cyfarfod yr Arweinyddion Tîm ar 29 Ionawr.<br><br>Gofynnodd LT am i'r eitem Gweithio ar eich Pen eich hun gael ei rhoi yn ôl ar yr agenda.<br><br>**CAM GWEITHREDU**: JA i weld beth yw sefyllfa bresennol y polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun.<br><br>Dywedodd TI bod ymgynghorydd yng Nghilrhedyn i wirio lefelau'r sain a'r sŵn, ac y disgwylir adroddiad erbyn diwedd y mis. |
| | |
| 10 | **Cloi'r Cyfarfod am 14:45.**<br><br>**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 14 Ebrill 2026.** |